

Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 294 –24 Tachwedd 2006
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2006.

1. Aelod Newydd

Croesawodd y Cadeirydd Rheon Tomos i'w gyfarfod cyntaf. Cynigiwyd a derbyniwyd mai Rheon Tomos fydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg.

2. Cymeradwyo Cyllideb 2007

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ddrafft o gyllideb 2007. Rhoddwyd llongyfarchiadau i swyddogion S4C ar gyflwyno dogfen broffesiynol oedd yn glir, yn gryno a dealladwy. Nododd y Prif Weithredwr argymhellion ac egwyddorion i'r Gyllideb. Cymeradwywyd y Gyllideb ar gyfer 2007.

3. Drafft o Gynllun Corfforaethol 2007

Cyflwynwyd drafft o Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2007. Awgrymwyd newidiadau a chymeradwyaeth ar sail hynny. Mae copi o'r Cynllun ar wefan S4C – www.s4c.co.uk

4. Polisi Deddf Rhyddid Gwybodaeth

Cyflwynwyd drafft o Bolisi Deddf Rhyddid Gwybodaeth. Cytunwyd bod Swyddog Gwybodaeth yn eistedd yn gyfforddus gyda rôl Ysgrifennydd yr Awdurdod. Cytunwyd i ychwanegu dogfen Cynllun Cyhoeddi (Publication Scheme) fel anecs i'r polisi uchod. Cymeradwywyd y ddogfen i'w chyhoeddi a gellir ddod o hyd i gopi ar wefan S4C – www.s4c.co.uk

5. Penodi aelodau'r Pwyllgor Cynnwys

Cadarnhawyd bod angen sefydlu Pwyllgor Cynnwys i edrych yn benodol ar y Datganiad Polisi Rhaglenni a'r Adolygiad o'r Polisi Rhaglenni a'r Strategaeth Rhaglenni. Cytunwyd i apwyntio Eira Davies yn Gadeirydd y Pwyllgor.

6. Adroddiad y Cadeirydd

Nodwyd ymweliad Pádhraic Ó Ciardha o TG4 ag S4C ddydd Mercher diwethaf i drafod darlledu mewn iaith leiafrifol a'r newidiadau diweddera i ddarlledu yn Iwerddon.

7. **Adroddiad Y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad a nodwyd y canlynol:

- Cyflwynodd adroddiad oedd yn crynhoi gweithgareddau presennol ar nifer o lwyfannau technegol ac yn argymhell strategaeth ar gyfer y dyfodol.
- **Arwahanrwydd yr Awdurdod** - cadarnhawyd bod Nerys Hopkins wedi derbyn swydd fel Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol S4C a'i bod yn sefyll i lawr fel Ysgrifennydd yr Awdurdod. Diolchodd y Cadeirydd ac aelodau'r Awdurdod i Nerys am ei harweiniad i waith yr Awdurdod ac roeddynt yn werthfawrogol o hynny.
- **Rygbi** - nodwyd bod S4C wedi sicrhau hawliau darlledu Cwpan Rygbi'r Byd 2007 lle bydd hyd at 18 gêm byw ac uchafbwyntiau yn cael eu darlledu ar S4C.
- Nodwyd bod darlith chwaraeon gyntaf S4C yng nghwmni John Eales, wedi bod yn noson lwyddiannus dros ben.

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol:

- Cyfarwyddwr Comisiynu
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Ariannol